# AC(2) 04-05(p2)

# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Y Rhaglen Derfynol o Archwiliadau Gwerth am Arian ar gyfer 2005-2006

### Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Ebrill 2005**

### Rhaglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian i gychwyn yn 2005-06

1. Yn ei gyfarfod ar Fedi’r 30ain 2004, bu’r Pwyllgor Archwilio’n ystyried y rhaglen gwerth am arian arfaethedig ar gyfer 2005-06 (AC(2)-08-04) a baratowyd gan fy rhagflaenydd, Syr John Bourn. Wrth baratoi’r rhaglen derfynol hon ar gyfer 2005-06, rwyf wedi cymryd i ystyriaeth y rhaglen arfaethedig honno, ynghyd â sylwadau’r Pwyllgor amdani.

2. Yn y gorffennol, mae’r rhaglen wedi’i llunio i sicrhau bod gan y Pwyllgor gyfle i gymryd tystiolaeth drwy amrediad llawn gweithgareddau’r Cynulliad gan roi ystyriaeth ddyledus i’r risg i werth am arian a pherthnasedd. Rwy’n cytuno â rhinweddau’r dull hwnnw, felly nid wyf wedi ceisio gwneud newidiadau dianghenraid. Pan wyf wedi newid y rhaglen a gyflwynwyd ym mis Medi, rwyf wedi gwneud hynny oherwydd sylwadau’r aelodau, gweithgareddau eraill, megis dyfodiad y fenter polisi Creu’r Cysylltiadau, neu am fy mod wedi gweld cyfleoedd cynnar i glymu’r rhaglen i mewn i’r strategaeth gyffredinol yr wyf yn ei datblygu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru. Rwy’n disgwyl cysylltu rhaglenni archwiliadau gwerth am arian yn y dyfodol yn amlwg â’r strategaeth honno.

3. Bydd y strategaeth gyffredinol honno yn adeiladu ar y dull cyfredol o ddarparu archwiliad cynhwysfawr o’r gwariant, wedi’i seilio ar risgiau. Bydd dull o’r fath yn cynnwys chwilio’n systematig a cheisio canfod lle i wella gwerth am arian a ddarperir gan gyrff cyhoeddus, yn unigol ac ar draws ffiniau cyfundrefnol. Felly bydd detholiad a chynllun archwiliadau a gwaith arall wedi’i seilio’n agos ar yr angen am ddatblygu gwasanaethau a chyrff sector cyhoeddus fel eu bod nhw’n perfformio’n well.

4. Er bod llawer iawn o’r rhaglen derfynol hon wedi’i seilio ar gynigion Syr John, fy rhaglen innau ydyw wedi’r cyfan, ac rwyf wedi ei mabwysiadu’n weithredol yn hytrach na’i hetifeddu’n oddefol. Dyma’r pynciau yr wyf wedi penderfynu eu cynnwys ar gyfer 2005-06:

- Rheoli clefydau cronig;
- Y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) newydd;
- Mynediad i’r cyhoedd i gefn gwlad;

- Cydweithrediad a chyfuniad sefydliadau addysg uwch a phellach;
- Cymorth Rhanbarthol Detholus (RSA) a grantiau datblygiad economaidd eraill;
- Y Rhaglen Grantiau i'r Digartref a'r Rhai Heb Do Uwch eu Pen;
- Cynyddu gweithgarwch corfforol a'i fanteision;
- Prynu'r adeilad newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Gwasanaethau i blant.

Rwyf wedi crynhoi'r rhain yn fyr yn atodiad y memorandwm hwn.

5. Yn ei gyfarfod ar Ragfyr 2il, gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am y ffordd y byddai rhaglen archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol yn cyfrannu at, ac yn cyflenwi'r fenter Creu'r Cysylltiadau. Am fod gan Creu'r Cysylltiadau yr amcanion eglur 'gwerth am arian' a 'defnyddio ein hadnoddau i'r eithaf', mae fy rhaglen o archwiliadau gwerth am arian yn cytuno'n gyfangwbl â'r agweddau hynny o Greu'r Cysylltiadau. Mae'r Atodiad cysylltiedig yn dangos sut mae'r astudiaethau unigol yn cyfrannu at amcanion Creu'r Cysylltiadau. Fy mwriad yw bod fy strategaeth ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru'n ymdrin yn benodol â'r ffyrdd y gall fy astudiaeth allanol o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gefnogi'r amcanion hynny. Nid yw, ac ni ddylai, cefnogaeth gyffredinol o'r fath, mewn egwyddor, fel petai, awgrymu cefnogaeth heb feirniadaeth i weithgareddau penodol y gallai Cynulliad Cymru eu gwneud fel rhan o weithrediad ymarferol Creu'r Cysylltiadau. Wrth archwilio gweithrediad Creu'r Cysylltiadau, byddaf, wrth gwrs, yn cadw ac yn sicrhau bod eraill yn gweld fy mod yn cadw fy annibyniaeth innau, a, thrwy ymestyniad, annibyniaeth y Pwyllgor.

6. Rwyf wedi newid y rhaglen arfaethedig mewn perthynas ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Er hynny, mae'n gyson â'r cynigion a gyflwynwyd ym mis Medi. Mae'r archwiliad o reolaeth clefydau cronig yn fireiniad ar y cynnig 'Gweithredu Wanless'. Dylai'r ffocws yma ar gwmpas yr archwiliad ei alluogi i ymdrin yn fwy parod â'r newidiadau yn strwythur a chydbwysedd y gofal sy'n angenrheidiol i wneud y GIG yn fwy effeithiol ac effeithlon. Dylai hefyd gyflenwi'n ddefnyddiol yr archwiliad diweddar o amseroedd aros y GIG.

7. Mae'r archwiliad o gontract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yn berthnasol hefyd i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd GIG Cymru drwy gydbwyso'r system gofal iechyd yn well. Bydd rhan ohono'n ymdrin â phenodi a chadw meddygon teulu, ac rwy'n ystyried dull mor gynhwysfawr o ymdrin ag un grwp o bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd yn well nag edrych ar recriwtiad a chadwraeth yn llai manwl mewn nifer o grwpiau. Yn wir, cydnabuwyd y posibilrwydd yma yn y cynnig a gyflwynwyd ym mis Medi.

8. Roedd y cynnig mewn perthynas â Deintyddion a'r cynnig mewn perthynas â Heintiau a Geir mewn Ysbytai yn cyflwyno problemau amseru. Ar gyfer y cyntaf, mae contract newydd ar waith, a gyda'r ail rwy'n ystyried y byddai'n well rhoi amser i strategaeth newydd Llywodraeth y Cynulliad ei sefydlu ei hun yn yr achos hwn. Felly, credaf y byddai'n well ystyried y cynigion yma unwaith eto yn yr hydref.

9. Ar ben hynny, rwyf wedi newid y rhaglen a gynigwyd ym mis Medi ar gyfer maes addysg. Wrth

ystyried y cynigion gwreiddiol, ac yn dilyn hynny drwy ohebiaeth, mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb sylweddol mewn cyfuno sefydliadau addysg uwch a phellach. Gallai cyfuniadau o'r fath yn y pen draw gyfrannu at iechyd ariannol y sefydliadau yng Nghymru. O ganlyniad, rwyf wedi amnewid y cynnig o wneud archwiliad o iechyd ariannol sefydliadau addysg bellach gydag archwiliad o gydweithrediad a chyfuniadau mewn addysg uwch a phellach.

10. Erbyn hyn, nid wyf yn bwriadu gwneud archwiliad fel rhan o'r rhaglen hon o gyfranogaeth a chwblhau mewn addysg uwch. Mae gwybodaeth oedd ar gael yn ddiweddar yn dangos datblygiad da mewn cyfranogaeth a chwblhau yng Nghymru. Ond, byddaf yn ystyried y posibilrwydd o wneud archwiliad o gyllido cyfalafol ysgolion pan fyddaf yn ystyried cynigion yn yr hydref. Byddaf hefyd yn edrych eto ar y posibilrwydd o archwilio Cytundeb Llwyth Gwaith yr Athrawon yn 2006-07; am fod hwn yn achosi pryder i'r Pwyllgor.

11. Ym mis Medi 2004, gofynnodd y Pwyllgor am ystyriaeth i archwiliad o allu masnachol gweision cyhoeddus. Byddai archwiliad o'r fath yn deilwng iawn. Mae fy ngwaith proffesiynol innau dros yr ugain mlynedd ddiwethaf wedi ymwneud yn agos â'r pwnc hwnnw. Rwy'n awyddus iawn i weld archwiliad yn y maes hwnnw. Ymysg pethau eraill, dylai, er enghraifft, fod o gymorth i sicrhau'r 'pryniant doeth' sydd wedi'i amlinellu yn Creu'r Cysylltiadau. Fodd bynnag, mae Tîm Menter Pryniant Cymru Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud 'Gwiriadau Iechyd Pryniant' yn y Cynulliad a'i gyrff noddedig, yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o sgiliau a phrofiad y staff sy'n prynu. Mae'r gwiriadau yma wedi'u bwriadu i werthuso'r perfformiad prynu cyfredol a chanfod unrhyw wyriadau oddi wrth ymarferion da, sy'n waith y byddwn yn ei ystyried yn rhan hanfodol o unrhyw archwiliad y byddaf yn ei wneud. Am nad oes disgwyl i waith Tîm Menter Pryniant Cymru fod yn gyflawn hyd fisoedd cynnar 2006, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'n well peidio â chychwyn archwiliad cyn Ebrill 2006. Ond, byddaf yn parhau i ystyried sut y dylid gwneud archwiliad o'r fath, a disgwyliaf gyflwyno cynnig i'r Pwyllgor ar y pwnc yma yn yr hydref.

12. Roedd y Pwyllgor yn awyddus hefyd i gynnal archwiliad o Ddatblygiad Cynaliadwy cyn diwedd yr Ail Gynulliad. Er fy mod yn awyddus i gychwyn hyn gynted ag y bo modd, ni fyddwn eisiau ei weld cyn 2006-07, er mwyn caniatáu i systemau mesur perfformiad Llywodraeth y Cynulliad gael eu gweithredu'n llawn.

13. Fel fy rhagflaenydd, rwy'n ystyried fy rhaglen yn un y mae modd ei newid os oes rhaid. Fy mwriad yw sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol y byddaf yn ei ddarparu i'r Pwyllgor yn elwa o'r ffaith ei fod yn ymatebol i newid mewn amgylchiadau. Yn sicr iawn, byddwn yn gwneud newidiadau i'm rhaglen yn aml iawn o ganlyniad i awgrymiadau gan aelodau'r Pwyllgor, ond byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn gwybod am unrhyw newidiadau wrth iddynt ddigwydd.

**Jeremy Colman**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Atodiad

## Archwiliadau i’w cychwyn yn 2005-06

## Iechyd

### Rheolaeth Clefydau Cronig

Gan y bobl sydd â chlefydau cronig, megis diabetes, asthma ac arthritis y mae cyfran fawr o’r galw am driniaeth ddwys yn yr ysbyty—mae 55 y cant o leiaf o welyau ysbytai dwys yng Nghymru wedi’u cymryd gan gleifion y mae eu clefydau cronig wedi gwaethygu’n gyflym. Efallai y byddai trefnu triniaeth yn rhywle arall, e.e. rhoi adnoddau ar waith i helpu cleifion i reoli eu salwch, yn galluogi i rai o’r bobl yma osgoi mynd i’r ysbyty am driniaeth ddwys. Gallai hynny nid yn unig olygu eu bod yn cael gwell triniaeth mewn mannau mwy priodol, ond hefyd bod y sefyllfa’n fwy effeithiol am nad oes cymaint o ddibyniaeth ar gael lle mewn gwely mewn ysbyty dwys. O ganlyniad, mae gwella’r rheolaeth ar glefydau cronig yn rhan hanfodol o’r ymdrechion i reoli’r galw am driniaeth ysbyty dwys, sydd, fel y dwed yr Adolygiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (Wanless), o bwysigrwydd strategol i GIG Cymru. Byddai’r archwiliad yma’n edrych ar y ffordd mae rhai o’r prif glefydau cronig wedi’u rheoli, yn arbennig cymunedau iechyd yng Nghymru, a bydd yn gwneud cymariaethau gyda gwaith tebyg yn yr Alban. Drwy helpu’r GIG i lunio ei wasanaethau ar gyfer pobl sydd â chlefydau cronig mewn ffordd sy’n ateb eu hanghenion yn well, byddai’n cyfrannu at y nod hwnnw yn Cymru: Gwlad Well o gefnogi pobl i fyw’n iach ac yn annibynnol. A thrwy hybu mwy o effeithiolrwydd yn y ffordd y defnyddir y cyfleusterau, byddai’n helpu’r GIG i wneud defnydd gwell o’i adnoddau.

### Y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) newydd

Mae datblygu gwasanaethau gofal cychwynnol effeithiol yn rhan fawr o’r ymdrech i wella cydbwysedd y system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bwriad y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) newydd rhwng Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) a phobl broffesiynol mewn gofal iechyd cychwynnol, megis meddygon teulu, yw gwobrwyo gofal o ansawdd uwch, gwella bywydau meddygon yn y gwaith a sicrhau bod y cleifion yn elwa o amrediad ehangach o wasanaethau yn y gymuned. Mae’r contract hefyd yn gwneud y BILlau yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau. Ochr yn ochr â’r manteision yma, mae gan y cytundeb newydd oblygiadau sylweddol o ran cost—disgwylir i wariant ar wasanaethau meddygol cychwynnol yng Nghymru gynyddu o £302 miliwn yn 2002-03 i £402 miliwn yn 2005-06, sef cynnydd o33 y cant. Mae’n hanfodol felly bod manteision y contract wedi’u sicrhau er mwyn gwneud yn siwr nad yw’r arian ychwanegol wedi’i wastraffu. Byddai’r archwiliad yma’n edrych yn fanwl ar rai o’r materion a bennwyd ym ‘mhapur thematig’ y Comisiwn Archwilio yng Nghymru Y Contract GMS Newydd ar gyfer Meddygon Teulu a Phobl Broffesiynol Eraill mewn Gofal Iechyd. Gallai edrych yn arbennig ar y ffordd roedd y BILlau yn delio â’u cyfrifoldebau newydd, yn arbennig y gwasanaethau tu allan i oriau, ac ar ddatblygiad y dasg o ymdrin â

phroblemau recriwtio a chadw. Byddai hefyd yn gadael i ni gymharu hyn â’r datblygiad mewn rhannau eraill o Brydain. Drwy helpu i sicrhau bod gwasanaethau wedi’u siapio i ateb anghenion y cyhoedd yn agosach, ac y gwneir gwell defnydd o amser ac arbenigedd pobl broffesiynol mewn gofal iechyd, byddai’n cyfrannu at gyrraedd nod Creu’r Cysylltiadau o "wneud yn fawr o’n hadnoddau".

## Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Mynediad i’r cyhoedd i gefn gwlad

Mae cerdded amser hamdden yn bwysig i economi gwledig Cymru. Mae werth oddeutu £550 miliwn yn flynyddol. Mae gwella mynediad i gefn gwlad yn fater o gydymffurfio â’r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) hefyd. Am fod ganddo’r dasg statudol o gadw hawliau tramwy cyhoeddus yn agored, mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ran fawr i’w chwarae mewn gweithredu’r ddeddfwriaeth. Mae’n rhaid i’r Cyngor Cefn Gwlad weithio gydag awdurdodau lleol y mae’r Cynulliad yn darparu grantiau iddynt (oddeutu £2.4 miliwn). Er hynny, mae llawer o lwybrau mynediad cyhoeddus ar gau o hyd. Mae’n ymddangos bod rhai awdurdodau lleol yn cael mwy o lwyddiant gyda gweithredu’r Ddeddf nag eraill ac, yn gyffredinol, mae llwyddiant Cymru’n arafach na Lloegr. Mae pryderon yn bodoli hefyd am ansawdd y rhwydwaith llwybrau a’r amser y mae’n ei gymryd i baratoi mapiau mynediad agored. Bydd yr astudiaeth yma’n archwilio’r datblygiad mewn gweithredu’r ddeddfwriaeth, yn cynnwys sut mae awdurdodau lleol wedi defnyddio grantiau. Bydd yn edrych hefyd ar ba mor llwyddiannus y mae gwahanol rannau o’r sector cyhoeddus wedi gweithio gyda’i gilydd, gan ystyried swyddogaethau’r sefydliadau, megis Bwrdd Twristiaeth Cymru. Felly, byddai’n darparu gwersi sy’n berthnasol i nod Creu’r Cysylltiadau o "gydweithio fel gwasanaeth cyhoeddus Cymru". Bydd yn edrych ar draws gwahanol sectorau o’r gwasanaeth cyhoeddus felly bydd angen defnyddio amrediad o bwerau’r Archwilydd Cyffredinol drwy’r Cynulliad a sectorau llywodraeth leol.

## Addysg a Hyfforddiant

### Addysg Uwch a Phellach: cyfuniadau a chydweithio

Mae llawer o sefydliadau addysg bellach ac uwch Cymru’n fach. Mae sefydliadau bach yn gallu dioddef o iechyd ariannol gwael a diffyg gallu cystadleuol, yn arbennig wrth wynebu cystadleuaeth gref gan sefydliadau mawr y tu allan i Gymru. Roedd adolygiad y Cynulliad o addysg uwch (Cyrraedd yn Uwch, 2002) yn cynnig bod sefydliadau’n cydweithio’n agosach, yn cynnwys creu cyfuniadau, ac roedd yn galw am ‘glystyrau ailgyfluniad’ i resymoli gorgostau a gostwng dyblygiad. Gofynnwyd am gynigion gan y sector yn 2002-03 a darparwyd cyllid gan y Cynulliad a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (yn cychwyn gyda £5.3 miliwn yn 2002-03). Er na chafwyd unrhyw adolygiad cyfatebol o sefydliadau addysg bellach, mae’r rhain yn wynebu problemau tebyg, a chafwyd cyfuniadau a chydweithio o fewn y sector yma a gyda sefydliadau addysg uwch. Bydd yr astudiaeth yma’n archwilio’r cyfuniadau a’r cydweithio sydd wedi digwydd o fewn ac ar draws y ddau sector. Yn ogystal ag esbonio pam fo rhai ceisiadau i gyfuno wedi methu, bydd yn ceisio canfod sut y gellir gorchfygu’r ffactorau sy’n rhwystro cyfuniadau a chydweithredu. Bydd hefyd yn canfod pa fanteision sy’n dod o ganlyniad i’r gwahanol

raddau o gydweithio, ac yn canfod pa ffactorau sydd wedi arwain at lwyddiant mewn sicrhau manteision o’r fath. Felly, byddai’r astudiaeth yma’n cyfrannu at amcanion Creu’r Cysylltiadau o "gydweithio" a "defnyddio ein hadnoddau i’r eithaf".

## Datblygiad Economaidd a Chludiant

### Cymorth Rhanbarthol Detholus (RS) a grantiau datblygiad economaidd eraill

Mae Cymorth Rhanbarthol Detholus (RSA) yn gynllun hirsefydlog sy’n rhoi grantiau i gwmnïau ar gyfer eu buddsoddi mewn creu swyddi na fyddai’n cael eu creu fel arall. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu trefniadau newydd a ddaeth yn weithredol ym mis Ebrill 2004. Mae’r rhain yn caniatáu agwedd fwy hyblyg gyda mwy o bwyslais ar werth ychwanegol ac ar ansawdd swyddi. Mae gwariant ar RSA wedi cynyddu’n gyflym wrth i faint y grantiau gynyddu ac, erbyn hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig premiwm ar gyfer swyddi o ansawdd uchel, cyfleusterau ymchwil a datblygiad a swyddi sydd wedi’u cymryd gan bobl nad oeddent yn gweithio cyn hynny. Mae’r cynllun wedi’i arwain gan y galw ac nid oes ganddo dargedau ffurfiol. Byddai’r astudiaeth yn edrych ar ba mor effeithlon ac effeithiol yw’r cynllun mewn cyrraedd ei amcanion, ac a yw’r cynllun yn cael yr effaith gywir yn y lleoliadau a’r sectorau mwyaf anghenus. Byddai’n ceisio adolygu cyfraniad yr RSA i amcanion eang polisi Llywodraeth y Cynulliad yng nghyd-destun mentrau a chynlluniau tebyg, ac ystyried y gost weinyddol i ymgeiswyr a Llywodraeth y Cynulliad ei hun.

## Adfywiad a Chyfiawnder Cymdeithasol

### Y Rhaglen Grantiau i’r Digartref a’r Rhai Heb Do Uwch eu Pen

Mae ystadegau’r Cynulliad yn dangos cynnydd cyflym mewn digartrefedd yn y tair blynedd diwethaf. Efallai mai rhan o’r rheswm am hyn yw newidiadau real yn sefyllfa’r cyflenwad tai, gyda phobl sydd eisiau prynu am y tro cyntaf yn methu fforddio gwneud hynny fwy a mwy tra bo’r stoc tai cyngor yn parhau i gael eu gwerthu dan y darpariaethau Hawl i Brynu. Efallai hefyd bod y sefyllfa wedi’i dylanwadu gan newid yn y diffiniad gweinyddol o ddigartrefedd yn 2001. Mae Rhaglen Grant y Cynulliad i’r Digartref a’r Rhai Heb Do Uwch eu Pen yn darparu cyllido 100% i brosiectau’r sector gwirfoddol i atal neu i ymateb i ddigartrefedd a phobl heb do uwch eu pen. Defnyddir y grant i dalu am le i gysgu ond fe’i ddefnyddir hefyd i ddarparu pethau fel gwasanaethau cynghori a chyfryngiad teuluol, sydd hefyd yn gallu helpu i atal digartrefedd. Y gyllideb ar gyfer 2005-06 yw £5 miliwn. Byddai’r astudiaeth yma’n archwilio’r trefniadau asesu a monitro. Gallai hefyd archwilio i weld a yw prosiectau y darperir cefnogaeth iddynt yn gwireddu’r amcanion a gynlluniwyd ac yn edrych ymhle mae’n bosib gwella’r ffordd y targedir adnoddau.

## Diwylliant, Chwaraeon a’r Iaith Gymraeg

### Cynyddu gweithgaredd corfforol a’i fanteision

Mae’r duedd o fyw bywyd llonydd yn arwain at ordewdra cynyddol a salwch perthnasol. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ostyngiad mewn ansawdd bywyd, llai o gynhyrchaeth economaidd, ac mae’n rhoi mwy o bwysau ar GIG Cymru. Byddai’r astudiaeth yma’n archwilio mentrau sydd wedi’u hanelu at gynyddu gweithgaredd corfforol, megis y rheini y sonnir amdanynt yn nogfen ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad Dringo’n Uwch. Bydd yn edrych ar y fframwaith Iechyd a Dulliau Actif o Fyw yng Nghymru, sy’n cynnwys cynlluniau megis Dragon Sport. Bydd yn asesu llwyddiant ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Chwaraeon Cymru i gynyddu gweithgaredd corfforol, gan dalu sylw’n arbennig i ymdrin ac eithrio cymdeithasol, a chyfrannu at iechyd a lles cyffredinol. Mae’r pwyslais ar ymdrin ac eithrio cymdeithasol yn berthnasol i’r thema yn Creu’r Cysylltiadau "cefnogaeth a mynediad rheng flaen i sicrhau cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol".

## Gweinyddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

### Prynu adeilad newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn 2001, penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol roi’r gorau am gyfnod i adeiladu’r siambr ddadlau newydd yn dilyn cynyddiadau sylweddol yn yr amcangyfrifon o gostau, ac arweiniodd hyn at derfynu cyflogaeth y pensaer. Yn dilyn hynny, cytunodd y Cynulliad ar gontract cyfandaliad sefydlog werth £41 miliwn (heb gynnwys TAW; canran ar gyfer celf, dodrefn, darnau gosod a gosodiadau’r cleient, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac offer darlledu, ffioedd y rheolwr prosiect proffesiynol a ffioedd proffesiynol eraill). Byddai’r astudiaeth yma’n adolygu pryniant a gwaith adeiladu’r adeilad, yr ydym yn disgwyl iddo agor yn hydref 2005. Ni fyddai ein harchwiliad yn cychwyn nes y byddai’r adeilad ar waith, felly gellid ei ohirio os bydd y prosiect yn arafach na’r disgwyl. Byddai’r archwiliad yn gwneud defnydd llawn o’r adolygiadau blaenorol o’r prosiect, yn cynnwys yr adroddiad blaenorol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau adeiladau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2000), yn ogystal â chymharu’r broses gydag adeiladu a phrynu Adeilad Seneddol newydd yr Alban yng Nghaeredin. Byddai’n dysgu gwersi fyddai’n cyfrannu at nod Creu’r Cysylltiadau o sicrhau’r "pryniant doeth"

## Trawstorri

### Gwasanaethau i blant

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n gwario oddeutu £80 miliwn y flwyddyn ar wasanaethau plant. Mae wedi ymdrin â’r ddarpariaeth gydag agwedd drawstoriadol gan greu saith amcan craidd i blant, a nifer o strategaethau a mentrau sy’n berthnasol i blant, megis Plant yn Gyntaf. Mae’r rhain i gyd yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, y GIG, llywodraeth leol (addysg a gwasanaethau cymdeithasol) a’r sector gwirfoddol. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol wedi penodi Comisiynydd y Plant sydd â chylch gwaith eang i hyrwyddo diddordebau plant yng Nghymru ac archwilio elfennau sy’n achosi pryder. Maent wrthi’n datblygu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol y Plant hefyd. Byddai’r astudiaeth yma’n archwilio materion megis pa mor effeithiol yw ymdriniaeth Llywodraeth y Cynulliad â thlodi ymysg plant, a yw’n gwrando ar blant, pa mor effeithiol yw

cydweithrediad y gwahanol sectorau a sefydliadau â’i gilydd dan nawdd Llywodraeth y Cynulliad, a gwersi ar gyfer gwella gweithrediad y polisïau trawstorri yng Nghymru, megis yn nhermau cymhelliant, cyllidebau wedi’u rhannu ac osgoi dyblygiad. Drwy edrych ar yr amrediad yma o faterion, byddai’n cyfrannu at amcanion Creu’r Cysylltiadau o "roi’r dinesydd ar ganol y llwyfan" a "chydweithio fel Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.".